



## Gwerthusiad Doethineb Gwledig Gwerth cysylltiad

Tachwedd 2020



Mae Doethineb Gwledig yn brosiect pum mlynedd wedi'i ariannu gan y Loteri Genedlaethol sy'n archwilio effaith gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu harwain gan bobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru a'r Alban. Fel rhan o uchelgeisiau'r prosiect, mae partneriaid Doethineb Gwledig sef, Outside the Box, Volunteering Matters Cymru a'r Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Cynhwysiant (NDTi) yn rhannu'r dysgu i alluogi pobl sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd gwledig i ddefnyddio ac elwa o'r hyn sy'n gweithio.

***“Cafodd Doethineb Gwledig, fel yr oeddem yn ei adnabod, ei stopio'n stond”***  
**(Aelod o staff Volunteering Matters)**

Ar 23 Mawrth 2020, wynebodd tîm Volunteering Matters Cymru, a arweiniodd brosiect Doethineb Gwledig yng Nghymru, y realiti amlwg y byddai'r fenter hon sydd ar lawr gwlad yn y gymuned a oedd yn canolbwyntio ar fywydau pobl hŷn, yn bendant am wynebu heriau anochel o achos y pandemig coronafeirws.

Mae'r adroddiad hwn yn rhannu profiadau a myfyrdodau'r tîm, am yr hyn a oedd yn cael ei ddatblygu yn y cymunedau newydd, yr hyn sydd wedi newid o ganlyniad i'r pandemig a'r hyn y mae'r cyfnod heriol hwn wedi'i olygu i'n dealltwriaeth o Doethineb Gwledig.

Yn y misoedd cyn y pandemig coronafeirws, roedd y Gweithwyr Datblygu yn dechrau gweld arwyddion cynnar o bobl yn dod at ei gilydd yng nghymunedau Cam 2: Penrhyn Dale yn

Sir Benfro a Threffynnon yn Sir y Fflint. Dewiswyd y ddau safle newydd hyn ar gyfer eu hamrywiaeth o'r safleoedd gwreiddiol, i brofi'r model mewn gwahanol ardaloedd, ond gwnaethant ddewis yr un awdurdod lleol yn bwrpasol i gadw staff a oedd yn adnabod y prosiect ac a allai gael cymorth ehangach drwy wasanaethau yr oeddent yn ymwybodol ohonynt yn yr ardal leol. Roedd y tîm yn elwa o wersi a ddysgwyd o'u gwaith yn y safleoedd gwreiddiol. Roedd trigolion hŷn yn dechrau cymryd rhan mewn gweithgareddau a oedd yn eu cysylltu â phobl eraill ac roedd eu cymunedau a rhwydweithiau'r Gweithwyr Datblygu yn tyfu gyda sefydliadau lleol a oedd yn rhannu'r un nodau. Roedd grwpiau cymdeithasol yn Aberdaugleddau a'r caffî cymunedol yng Nghoed-llai yn rhedeg gyda chefnogaeth trigolion lleol ac yn cael eu cynnal yn y safleoedd gwreiddiol.

# Penrhyn Dale

Ym Mhenrhyn Dale (sy'n cynnwys Marloes, Llanismel a Dale) roedd pobl hŷn wedi nodi nifer o faterion i fynd i'r afael â nhw drwy'r gwaith hwn. Roedd heriau ymarferol fel argaeledd a chost trafndiaeth, heb wybod ble i fynd am wybodaeth a chydlyniant cyfyngedig rhwng sefydliadau a phobl ar lawr gwlad. Cododd pobl bryderon hefyd am lesiant eu haelodau hŷn o'r gymuned. Roeddent yn teimlo bod unigrwydd ac unigedd yn broblem ond ni allent fod yn siŵr o'r raddfa; nid oedd gan bobl yr hyder i gymryd rhan yn y gymuned ac roeddent yn teimlo bod rhai trigolion nad oedd ganddynt unrhyw un yn eu bywydau i'w cefnogi neu fod yn eiriolwyr drostynt, yn arbennig o agored i niwed.

Roedd y Gweithiwr Datblygu wedi treulio misoedd yn dod i adnabod y gymuned, yn ymweld â'r ardal, yn siarad â thrigolion, yn cysylltu â gwasanaethau'r sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus, yn darganfod beth oedd yn digwydd a beth oedd ei angen.

Erbyn y Flwyddyn Newydd roedd wedi ffurfio partneriaeth ag arweinydd tîm gwasanaeth Cysylltwyr Cymunedol Lleol. Nod y gwasanaeth hwn yw dod o hyd i gymorth, gwasanaethau a gweithgareddau i drigolion lleol er mwyn lleihau unigrwydd ac unigedd, gwella iechyd meddwl a sicrhau bod pobl yn ymgysylltu, yn weithgar ac yn cael llais. Gwelodd y Gweithiwr Datblygu ac arweinydd tîm y Cysylltydd Cymunedol gyfle i ymuno ac elwa o'u hegri, eu harbenigedd a'u hyder cyffredin i ymgysylltu â phobl yn y Penrhyn. Gyda'i gilydd, roeddent yn gweithio ar gyfarfodydd neuadd bentref wythnosol ar gyfer trigolion hŷn, gan arwain at ddiwrnod gwybodaeth gyda chawl a brechdanau a thaith fws ddirgel, a oedd yn rhywbeth yr oedd pobl wedi dweud eu bod eisiau ei wneud ac yn y diwedd, roedd pawb wedi mwynhau'n aruthrol. Roedd yr egin o'r hadau a oedd wedi'u hau fisoedd yn gynharach yn dechrau dangos.



# Treffynnon

Yn Nhreffynnon, tynnodd y bobl sy'n byw yn y gymuned sylw at y ffaith bod gan lawer o bobl hŷn y canfyddiad nad yw'r gymuned yn lle diogel yn y nos, gyda phobl ifanc yn cyfarfod ar y strydoedd oherwydd prinder llefydd i fynd neu rywbeth i'w wneud. Goleuadau stryd gwael ac i rai pobl â golwg gwael, mae'r teimlad hwn yn cael ei ddwysáu. Cyfyngir ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl 5pm ac mae gan ardaloedd pellennig y gymuned broblemau hefyd o ran hygyrchedd megis palmentydd gwael. Yn olaf, nid yw aelodau o'r gymuned yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael iddynt felly nid ydynt yn ymuno.

Yn y misoedd cyn y cyfnod clo cenedlaethol, treuliodd Gwaith Datblygu Doethineb Gwledig amser yn cwrdd â phobl leol, gan gysylltu â sefydliadau a grwpiau lleol i gael gwybod mwy am y bobl a'r cymunedau, beth oedd yr heriau a lle'r oedd y cyfleoedd i fynd i'r afael â rhai o'r materion. Nododd yn gynnar fod ystâd Holway yn Nhreffynnon wedi'i datgysylltu oddi wrth rannau eraill o'r gymuned a theimlai'r bobl sy'n byw yno lai o gynhwysiant neu groeso. Drwy feithrin perthnasau, gwnaeth gysylltiadau â'r gymuned hon ac mae bellach yn aelod o Fwrdd Partneriaeth Gymunedol Holway, sy'n cynnwys sefydliadau sy'n cefnogi gwaith datblygu yn y maes hwn. Yn ddiweddar, cymerodd y cyngor eiddo ar yr ystâd o'r enw Tŷ Hwb Holway er mwyn cysylltu'n well â'r gymuned. Roedd y Gweithiwr Datblygu i fod i gael ei leoli yn Nhŷ Hwb ddwywaith yr wythnos i gynyddu eu presenoldeb yn y gymuned a bod yn fwy hygyrch i bobl hŷn. Yn anffodus, oeddodd COVID-19 y cynlluniau ar gyfer agor

Tŷ Hwb, ond mae'r cyngor yn dal i gynllunio i agor yr adeilad unwaith y byddant yn gallu gwneud hynny. Mae'r Gweithiwr Datblygu hefyd wedi gweithio gydag un neu ddau o drigolion a oedd yn cefnogi rhedeg y ganolfan gymunedol, o'r enw Cyfeillion Holway, i beintio wal yn y ganolfan fel rhan o'r nosweithiau sinema dros-dro yr oeddynt wedi dechrau eu cynnal, roedden nhw hefyd wedi dechrau dosbarthiadau crefft. Roedd y Gweithiwr Datblygu hefyd wedi ceisio cyllid ar ei ran gan Cadwch Gymru'n Daclus. Roedd hyn ar gyfer gardd glöynnod byw yn Nhŷ Hwb Holway i greu lle braf y tu allan i'r bobl a oedd wedi ymweld. Roedd y cais hwn yn llwyddiannus ac roedd cynlluniau i ddefnyddio hyn fel cyfle ar gyfer digwyddiad sy'n pontio'r cenedlaethau yn y gwanwyn ond oherwydd y cyfnod clo nid oeddent yn gallu gwneud hynny. Maent wedi cadw'r hadau a'r bylbiau gwyllt ac yn gobeithio ei wneud y flwyddyn nesaf yn hytrach. Er gwaethaf y datblygiadau hyn, mae'r Gweithiwr Datblygu wedi canfod bod ymgysylltu a manteisio gan gymuned Holway wedi cymryd amser. Mae meithrin ymddiriedaeth yn rhan sylfaenol o'r gwaith hwn, yn enwedig mewn cymunedau fel hyn pan addawyd llawer o bethau i drigolion, ond nad ydynt wedi gweld llawer o welliant na chynnydd. Mewn rhannau eraill o'r dref mae'r Gweithiwr Datblygu wedi sefydlu dau gwrs tabled yn y llyfrgell leol ac mae'n eistedd ar grŵp Llywio Ystyriol o Oed a ariannodd ymarferydd drama i weithio mewn ysgolion i siarad â phobl ifanc am ddiogelwch cymunedol a phobl sy'n agored i niwed.

# COVID-19 a Doethineb Gwledig yng Nghymru

Pan ddechreuodd y cyfnod clo, nid oedd y Gweithwyr Datblygu yn gallu gwireddu'r holl gynlluniau yr oeddent wedi'u gwneud ar gyfer y ddwy ardal newydd. Daeth sefydliad cenedlaethol cyfan Volunteering Matters at ei gilydd yn gyflym i ailwrpasu ac ailgyfeirio eu hymdrechion, gyda thîm rhanbarthol Cymru yn gweithio'n galed ar eu hymateb lleol i'r sefyllfa ddigynsail hon. Roedd staff a gwirfoddolwyr yn ceisio darganfod beth oedd ei angen ar bobl a beth y gallent ei wneud i gyflawni canlyniadau prosiectau, ond mewn gwahanol ffyrdd. Roedd yn rhaid iddynt fod yn adweithiol, yn ymateb i anghenion y bobl a oedd yn hysbys i'r sefydliad ac yna i'r rhai nad oeddent yn hysbys i'r sefydliad. Roedd hyn yn golygu gwthio adnoddau i ble oedd eu hangen fwyaf. Roedd hyblygrwydd a dealltwriaeth cyllidwyr yn galluogi hyn i ddigwydd.

I bobl hyn, mae effaith y pandemig coronafeirws wedi bod yn hynod niweidiol. Mae'r materion a nodwyd, sy'n ymwneud ag unigrwydd, unigedd a bod yn fregus, wedi'u gwaethygu gan y mesurau i amddiffyn ac ynysu oddi wrth deulu, ffrindiau a'r gymuned ehangach dros gyfnod hir o amser. Ni fu adeiladu a chynnal cysylltiadau â phobl, hyd yn oed o bell, erioed wedi bod mor bwysig.

Daeth y grwpiau e-bost yr oedd y ddau Weithiwr Datblygu wedi bod yn eu hadeiladu dros y pedair blynedd diwethaf yn adnodd gwerthfawr a'r prif fecanwaith i gadw mewn cysylltiad â'r cymunedau hyn. Byddent yn anfon negeseuon e-bost rheolaidd at bawb ar y rhestr yn rhannu gwybodaeth, diweddariadau am yr hyn a oedd yn digwydd a straeon newyddion

da; unrhyw beth i gadw cyfathrebu ar agor a pharhau i gysylltu â phobl. Eglurodd un Gweithiwr Datblygu fod yr e-bost weithiau'n mynd allan ac nad oedd ymateb, weithiau roedd ymatebion fel "mae'n swnio'n ddid-dorol, a allwch chi ddweud mwy wrthyf?" ac nid oedd unrhyw geisiadau i beidio â derbyn negeseuon e-bost. O ganlyniad, roedd y gweithwyr datblygu'n cydnabod bod cyfathrebu'n gwbl allweddol, a byddai cadw pobl yn ymwybodol o'r hyn a oedd yn digwydd yn helpu pobl i beidio â theimlo mor ynysig.

Ar wahân i aros mewn cysylltiad â phobl drwy negeseuon e-bost, nid oedd llawer o bethau eraill y gallai'r Gweithwyr Datblygu eu gwneud ar lawr gwlad ar hyn o bryd, felly gyda gweddill tîm Cymru, gwnaethant roi o'u hamser i ganolbwyntio ar ddylunio a chyflwyno Rhaglen Ymateb COVID-19 Volunteering Matters. Model gwirfoddoli oedd hwn y gellid ei dynnu oddi ar y silff a'i ailadrodd unrhyw le, a oedd yn cynnig cyfeillio dros y ffôn, casglu presgripsiynau, siopa a cherdded cŵn i bobl yn y cymunedau. Fe'i cynigiwyd i wyth awdurdod lleol ledled Cymru; cynigiwyd yr ardaloedd oedd â phrosiectau a gwirfoddolwyr eisoes yn gyntaf. Yn Sir Benfro, recriwtiodd y Gweithiwr Datblygu 12 o wirfoddolwyr newydd ar gyfer Rhaglen Ymateb COVID-19 a chynigiwyd help gan dri gwirfoddolwr presennol. Mae mwy wedi ymuno â ni ers hynny ac mae'r gwirfoddolwyr ar hyn o bryd yn cefnogi 30 o bobl wrth gasglu presgripsiynau, cyfeillio dros y ffôn a siopa. Yng Nghoed-llai, recriwtiodd y Gweithiwr Datblygu bobl a wirfoddolodd yn y caffi cymunedol ac roeddent yn eu tro yn gwahodd preswlydd arall a oedd eisieu gwneud rhywbeth ond nad oeddent yn gwybod lle i ddechrau.



Mewn cyfnod o ansicrwydd, ofn a risg, roedd pobl yn teimlo baich a phwysau'r sefyllfa ond roeddent yr un mor awyddus i helpu. Roedd staff Volunteering Matters yn gallu tynnu'r pwysau oddi ar bobl a'r cyfrifoldeb roedd y sefyllfa wedi'i greu drwy ddarparu rôl alluogi a chynghori, yn enwedig o ran asesiadau risg a datblygu arferion diogel. Mae'r rôl alluogi hollbwysig hon sy'n gyfystyr â Doethineb Gwledig yn dibynnu ar beidio â gwneud pethau dros bobl a chymunedau ond gwneud pethau gyda nhw. Galwodd y bwrdd iechyd lleol ar yr arbenigedd hwn yn y maes recriwtio gwirfoddolwyr ar gyfer gwasanaeth rhaff achub newydd sy'n cael ei ddarparu drwy bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru leol, felly mae tîm y staff wedi bod yn recriwtio ymatebwyr achub ers mis Gorffennaf.

Y tu hwnt i'r gwaith gyda chymunedau, mae Doethineb Gwledig yng Nghymru wedi parhau i roi cyfleoedd i bobl hŷn gael llais mewn gwaith strategol neu waith polisi. Mae Swyddfa'r Comisiwn Pobl Hŷn yng Nghymru (OPCinW) Cymru wedi bod yn weithgar iawn yn ystod y pandemig, yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu i ddeall effaith



COVID-19 ar lesiant meddyliol, unigrwydd, unigedd a ffactorau dychrynlyd COVID-19 sy'n peri pryder iddynt a'u teuluoedd. Mae gwranddo ar bobl drwy'r digwyddiadau hyn yn golygu y gall yr OPCinW ymateb i'w hanghenion. Mae un Gweithiwr Datblygu hefyd wedi adfywio ei chysylltiad â'r Swyddfa Archwilio i archwilio cyfleoedd gan eu bod yn gwneud llawer o waith gweithredu cymdeithasol ieuencid ar hyn o bryd.

Rhannwyd arferion da a syniadau hefyd ynghylch yr atebion i faterion trafndiaeth wledig rhwng Cymru a'r Alban. Roedd un o Weithwyr Datblygu Doethineb Gwledig yr Alban wedi bwriadu ymweld â Chymru i gael gwybod mwy am y mentrau a oedd yn cael eu cynnal fel rhan o Gymdeithas Sefydliadau Trafnidiaeth Gymunedol Sir Benfro (PACTO). Mae'r sefydliad hwn yn darparu gwasanaethau trafndiaeth gymunedol i bobl a grwpiau nad oes ganddynt fynediad at eu trafndiaeth eu hunain neu nad ydynt yn gallu cael mynediad at drafndiaeth gyhoeddus. Oherwydd y pandemig, cafodd cynlluniau i Weithiwr Datblygu'r Alban ymweld eu gohirio, a chynhaliwyd cyfarfodydd ar-lein yn lle hynny.

I bobl hŷn, mae effaith y pandemig coronfeirws wedi bod yn hynod niweidiol.

Nid yw adeiladu a chynnal perthnasoedd â phobl, hyd yn oed o bell, wedi bod mor bwysig.

# Yr hyn rydym yn ei ddysgu

Mae Doethineb Gwledig wedi'i wreiddio mewn dull organig ar lawr gwlad sy'n gwrando ar bobl am yr hyn sydd ei angen, ac yna'n gweithio gyda nhw (yn hytrach nag ar eu cyfer) i alluogi newid. Mae adeiladu perthnasoedd a chysylltiadau rhwng a gyda phobl a'r gymuned yn hanfodol i lwyddiant y model hwn. Effaith fwyaf arwyddocaol y saith mis diwethaf ar Doethineb Gwledig fu'r cyfyngiadau a wynebwr gan y Gweithwyr Datblygu wrth hyrwyddo'r perthnasau a'r cysylltiadau yr oeddent wedi dechrau eu meithrin yn y cymunedau newydd. Mae wedi tynnu sylw at y ffaith, lle mae cysylltiadau, perthnasau ac ymddiriedaeth wedi'u meithrin dros amser, y bydd cymunedau'n deffro ar adegau o argyfwng a hunan-ysgogi. Fodd bynnag, roedd y Gweithwyr Datblygu wedi sefydlu perthynas yn y safleoedd gwreiddiol a newydd ac wedi cadw mewn cysylltiad syfrdanol o dda, gan roi gwybod i bobl beth sy'n digwydd a chefnogi pobl drwy'r cyfnod heriol hwn. Mae hefyd wedi'n hatgoffa y gallai pobl hŷn nad oes ganddynt fywyd digidol fod yn anoddach eu cyrraedd ac yn fwy agored i unigrwydd, felly mae'n hanfodol dod o hyd i ffyrdd eraill o gysylltu.

Er gwaethaf cyfyngiadau, mae pobl hŷn yn dal yn awyddus, ac yn meddu'r gallu i gyfrannu yn eu cymunedau. Mae Gweithwyr Datblygu yn gweithio gyda phobl dros 70 oed sy'n dal i wirfoddoli ond sydd wedi addasu'r hyn a wnânt yn seiliedig ar eu hamgylchiadau a'u cyfyngiadau, er enghraifft bod yn gyfhill dros y ffôn. Drwy ddigwyddiadau ymgysylltu, cynghorau cymunedau lleol a grwpiau llywio, mae pobl hŷn yn dal i gael llais ac yn dylanwadu ar newid; y gwahaniaeth yw eu bod bellach yn cyfarfod ar-lein.

Lle mae grwpiau neu ddigwyddiadau wedi cael eu cynnal gan y gymuned, mae'r pandemig ond wedi rhoi stop ar eu holl weithgarwch, ond mae'n anodd dweud am ba hyd. Fodd bynnag, efallai y bydd angen cymorth ar weithgareddau eraill nad ydynt wedi bod yn rhedeg ddigon hir i gael eu gwreiddio neu eu cynnal i aildechrau, fel y clwb cinio yng Nghoed-llai. Mae cael person i gydlynu pethau a dod â phobl at ei gilydd nes ei fod yn gynaliadwy yn un o swyddogaethau allweddol y Gweithiwr Datblygu. Bu gwirfoddolwyr allweddol sy'n arweinwyr naturiol sydd wedi ymgymryd â rolau newydd i helpu mewn ffyrdd eraill yn ystod y pandemig coronafeirws. Bydd y cymorth hwn mewn cyfnod o argyfwng gydag empathi a dealltwriaeth yn bwysig er mwyn ceisio meithrin a chynnal. Mae'n hanfodol rhoi profiad da i wirfoddolwyr, cadw mewn cysylltiad â nhw hyd yn oed os nad oes rôl iddynt ar y pryd, sicrhau bod ganddynt ddiben neu swyddogaeth a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am eu cyfraniad.

Er gwaethaf cyfyngiadau, mae pobl hŷn yn dal yn barod, ac yn meddu'r gallu i gyfrannu yn eu cymunedau.



# Edrych ymlaen

Lle mae gweithgarwch datblygu gyda safleoedd newydd wedi dod i ben, mae Gweithwyr Datblygu yn bryderus ynghylch faint o amser sy'n cael ei adael i ailgysylltu, ail-ymgysylltu a datblygu gweithgareddau yn y cymunedau hyn cyn diwedd y prosiect. Gyda Chymru'n profi ail gyfnod clo ym mis Hydref 2020, ac yn unol â chyngor y llywodraeth a chyngor sefydliadol, nid yw Gweithwyr Datblygu wedi bod yn cynllunio unrhyw ymgysylltiad na gweithgareddau yn eu cymunedau, ond yn bwysig, mae Volunteering Matters wedi rhoi cynlluniau manwl ar waith ar draws y sefydliad ar gyfer pryd y gellir aildechrau gweithgarwch. Y Datblygiad Mae Gweithiwr yn Nhreffynnon, ar ôl cael cyllid ychwanegol ar gyfer yr ardd, yn awyddus i ddatblygu prosiect Cadwch Gymru'n Daclus a hefyd wedi sefydlu cwrs tabled yn Nhreffynnon. Roedd cynlluniau hefyd ar gyfer clwb cinio, yn debyg i'r un a sefydlwyd yng Nghoed-llai, gydag ysgol gynradd leol. Mae'r sefyllfa wedi tynnu sylw at faint o amser sydd ei angen i sicrhau newid cynaliadwy mewn prosiect fel hwn ac o brofiad y Gweithwyr Datblygu, pan fydd newid yn symud ar gyflymder ymddiriedaeth, nid yw dwy flynedd yn ddi-gon. Mae cynaliadwyedd wedi ei wreiddio yn Doethineb Gwledig o'r dechrau, a thros y pedair blynedd, mae hyn wedi digwydd ar gyfer rhai mentrau yn y safleoedd gwreiddiol a bydd angen mynd i'r afael â hyn cyn gynted â phosibl yn y safleoedd newydd. Bydd yn bwysig bod yn realistig ynglŷn â'r hyn y gellir ei gyflawni yn y safleoedd newydd pan allant ddychwelyd i'r cymunedau hyn.

Ar lefel strategol, bydd Doethineb Gwledig yn gyfrwng i lywio datblygiadau o amgylch agenda'r Gymuned sy'n Ystyriol o Oed yng Nghymru. Mae Doethineb Gwledig mewn cysylltiad rheolaidd ag arweinydd rhwydwaith Heneiddio'n Dda, y mae ei waith yn rhan o weithgarwch cyffredinol y Comisiwn. Mae'r rhwydwaith yn rhan o Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae'r fenter Cymuned sy'n Ystyriol o Oed yn gweithio ar lefel awdurdod lleol i gael statws Sefydliad Iechyd y Byd mewn ardaloedd yng Nghymru. Drwy drafodaethau gyda thîm Doethineb Gwledig, nodwyd bod angen ystyried yr agwedd wledig honno ar y gwaith hwn ac y gallai fod angen dulliau gwahanol o ganlyniad. Er enghraifft, mewn ardaloedd gwledig efallai mai dim ond un siop gymunedol sy'n gwasanaethu cymuned gyfan ond mewn ardaloedd mwy trefol, efallai y bydd 15-20 o siopau a busnesau – felly efallai y bydd angen adlewyrchu pwyslais a phwysigrwydd y neges bod yn ystyriol o oed. Bydd hwn yn faes lle bydd Doethineb Gwledig yn canolbwyntio mwy yn y flwyddyn nesaf ochr yn ochr â gwaith parhaus ar yr agenda unigrwydd ac ynysu a mentrau Cyfeillion Dementia mewn ardaloedd gwledig.

**Ar lefel strategol, bydd Doethineb Gwledig yn gyfrwng i lywio datblygiadau o amgylch agenda'r Gymuned sy'n Ystyriol o Oed yng Nghymru.**

Yn ystod cam cyntaf Doethineb Gwledig, roedd y Gweithwyr Datblygu wedi gweithio'n agos â phobl hŷn a'r gymuned i adnabod y prif broblemau a mynd i'r afael â nhw, cyflawni canlyniadau'r prosiect a chreu newid cynaliadwy. Yng Ngham 2, gwnaeth y Gweithwyr Datblygu gyflwyno Doethineb Gwledig i gymunedau gwledig, newydd yng Nghymru a'r Alban, gan roi'r hyn a ddysgwyd o Gam 1 ar waith i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol a chyflawni'r un canlyniadau prosiect cyffredinol.

Yr Alban: Cam 1 Eaglesham, Ucheldir Swydd Perth, Gogledd Angus  
Cam 2 Moray Gororau'r Alban  
Cymru: Cam 1 Coed-llai a Phontblyddyn, Aberdaugleddau  
Cam 2 Treffynnon a Phenrhyn Dale

## Pwynt Cyswllt Gwerthuso

Dr Victoria Mason-Angelow Cynorthwydd  
Ymchwil a Gwerthuso  
Victoria.Mason-Angelow@ndti.org.uk

Tîm Datblygu Cenedlaethol ar gyfer  
Cynhwysiant (NDTi)  
[www.ndti.org.uk](http://www.ndti.org.uk)

## Adnoddau

Gallwch ddarganfod mwy o wybodaeth  
ac adnoddau yn:  
[www.ruralwisdom.org](http://www.ruralwisdom.org)

